

Dylan Thomas

New Quay / Y Cei Newydd

Discover people and places
that inspired Dylan Thomas

Darganfod pobl a llefydd a
ysbrydolodd Dylan Thomas



darganfod discover
Ceredigion

Cardigan Bay & the Cambrian Mountains

Dylan Thomas loved the coast and countryside of west Wales. Here he found good pubs where he could enjoy the company of master mariners, farmers and workers for chat and banter, to collect stories, observe characters and swap lines of poetry with local poets.

Dylan's first visits to the area were for a holiday on a farm at St Dogmaels when he was 16, and to see relatives in New Quay in the 1930s.

He came to live in New Quay in September 1944 - the start of the most productive period of his writing career.

Follow this Dylan Thomas trail to places familiar to him in New Quay and Ceredigion (Cardiganshire in Dylan's day) including some of the places that inspired some of his best work.

Under Milk Wood

Dylan made a start on his most famous work in New Quay. In December 1944 he recorded *Quite Early One Morning*, describing a walk into New Quay as the town was waking. This is considered the template from which *Under Milk Wood* developed.

Much of the topography of Llareggub, the town of Under Milk Wood, is like that of New Quay *the cliff-perched, toppling town...* (*Under Milk Wood*). So are many of the play's characters: Willy Nilly, Tom Fred, Cherry Owen, Captain Cat and Polly Garter were inspired by real New Quay people, who are still remembered in the town today.

Caraï Dylan Thomas gefn gwlad ac arfordir gorllewin Cymru. Yma gallai fwynhau cwmni capteiniaid llong, ffermwyr a gweithwyr am sgwrs, hel straeon, gwylio cymeriadau ac ymryson gyda beirdd lleol.

Gwyliau ar fferm yn ardal Llandudoch yn llanc 16 oed oedd ei ymweliad cyntaf, a deuai i'r Cei Newydd yn y 1930au i ymweld â theulu.

Daeth i fyw i'r Cei Newydd ym Medi 1944 - dechrau cyfnod mwyaf cynhyrchiol ei yrfa ysgrifennu.

Dilynwch drywydd Dylan Thomas i lefydd oedd yn gyfarwydd iddo yn y Cei Newydd a Cheredigion (neu Cardiganshire iddo ef) gan gynnwys rhai o'r llefydd a ysbrydolodd peth o'i waith gorau.

Dan y Wenallt

Cychwynodd Dylan ar ei waith enwocaf yn ystod ei gyfnod yn Y Cei Newydd. Yn Rhagfyr 1944 recordiodd *Quite Early One Morning* sy'n disgrifio'r dref ben bore. Datblygodd *Under Milk Wood* o'r templad hwn. Troswyd y gwaith i'r Gymraeg fel *Dan y Wenallt* gan T James Jones.

Mae tirwedd Llaregbyb, tref ddychmygol *Dan y Wenallt*, yn debyg iawn i'r Cei Newydd. Ac heb os fe ysbrydolwyd sawl cymeriad yn y ddrama, megis Dai-Di-ddim, Ceiriog Owen a Capten Cat, gan bobl go iawn o'r Cei - pobl a gofir yn y dref fach glan môr hyd heddiw.

'The cliff perched town at the far end of Wales'

Quite Early One Morning, 1944



Dylan Thomas



To begin at the beginning

1 The town trail starts in **Wellington Place** where there's an information board that introduces Dylan Thomas and New Quay. Across the street is **London House**, the home and grocery shop of Dylan's friend, Norman Evans, a prototype for *Under Milk Wood*'s Nogood Boyo.

2 At the bottom of **Church Street** is **Dolau**, the favourite pub of Caitlin Thomas. Also along Church Street were once a bank, managed by Mr Pritchard Jones, and a draper's, run by Mr Ogmores Davies and his house-proud wife. Dylan loved observing people and creating characters and names, drawing on several sources. Could these couples have been the inspiration for *Under Milk Wood*'s Ogmores-Pritchards?

3 **Cnwc y Glap** ('chat corner') is where the retired sea captains of the town met to reminisce and gossip. In Dylan's day, one in five of the town's men were master mariners and several were 'Cape Horners'. The shelter looks out onto the harbour and its curved stone quay *shouldering out* to sea, just as Dylan describes it. Workers from Dowlais in South Wales came to New Quay on holiday and congregated on the quay to sing, reminiscent of the 'Dowlais tenors' mentioned in *Under Milk Wood*. Opposite Cnwc y Glap is the Blue Bell, once run by 'Auntie' Cat, and where Dylan drank with the young Richard Burton.



Yn y dechrau'n deg



1 Cychwyna'r daith drwy'r dref ym **Maes yr Odyn** uwch Traeth y Dolau, lle cewch banel gwybodaeth yn cyflwyno Dylan Thomas a'r Cei Newydd. Ar draws y stryd mae **London House**, cartref a siop groser ffrind i Dylan, Norman Evans, sail y cymeriad Dai Di-ddim yn *Dan y Wenallt*.

2 Ar waelod **Stryd yr Eglwys** mae **Dolau**, hoff dafarn Caitlin Thomas. Hefyd ar y stryd yma arferai bod banc - y rheolwr oedd Mr Pritchard Jones, a siop ddillad Mr Ogmores Davies a'i wraig ffwdanus. Roedd Dylan yn dwlu ar wyllo pobl, a chreu enwau a chymeriadau, gan gymeryd syniadau o sawl ffynhonnell. Tybed a fu'r trigolion yma'n ysbrydoliaeth i'r Ogmores Pritchard yn *Dan y Wenallt*?

3 Yn **Cnwc y Glap** arferai hen gapteiniaid llongau'r dref gyfarfod yn feunyddiol i glebran a hel atgofion. Yn nyddiau Dylan roedd un o bob pump o ddynion y dref yn gapten llong, a sawl un wedi bod 'rownd yr horn'. Oddi yma gwelir y cei yn union fel cafodd ei ddisgrifio gan Dylan yn *'Quite Early One Morning'*. Arferai gweithwyr o Ddowlais ddod i'r Cei Newydd ar eu gwyliau, a byddent yn ymgynnull ar y cei i ganu, fel 'tenoriaid Dowlais' y cyfeirir atynt yn *Dan y Wenallt*. Gyferbyn â Cnwc y Glap mae'r Blue Bell, tafarn Anti Cat gynt, lle bu Dylan yn yfed gyda'r Richard Burton ifanc.



4 The Hungry Trout used to be the Post Office, where Dylan posted his scripts to London. Will and Lil Evans and Jack Lloyd were the postal workers in Dylan's day. Jack was also town crier, and Dylan described *Under Milk Wood's* postman, Willy Nilly as having a role like that of a crier.

5 The Black Lion was Dylan's favourite pub in New Quay. In the poem *New Quay* he describes himself sitting at an open window *observing the salty scene*. The landlord was Dylan's friend, Jack Patrick, a colourful character remembered by many for riding his horse into the bar! 'Jack Pat' also kept whippets and made buttermilk in the dairy near the pub.

Opposite the Black Lion is **Gomer House**, home of Captain Tom 'Polly' Davies, a wartime censor, and a government observer during the Spanish Civil War. A little further up the hill, at **Rosehill**, lived Captain Charles Patrick, known as 'Captain Pat'. It's not difficult to see how Dylan might have drawn on his acquaintance with these New Quay mariners for Captain Cat, the blind 'witness' of Llareggub.

Just below the Black Lion were The Downs, and a small field where donkeys used to graze - reminiscent of Llareggub's *Donkey Down*.

Opposite is **Tabernacle chapel**. The long steep lane next to the chapel, with views across to the mountains of Snowdonia, may be Eli Jenkins's 'eternal hill'.

4 Arferai'r **Hungry Trout** fod yn Swyddfa Bost, lle byddai Dylan yn postio ei sgriptiau i Lundain. Wil a Lil Evans a Jack Lloyd oedd y gweithwyr yno yn nyddiau Dylan. Roedd Jack hefyd yn griwr y dref, a disgrifiodd Dylan Jacyraca, dyn y post yn *Dan y Wenallt*, fel un yr oedd ganddo rôl fel criwr y dref.

5 Y Llew Du oedd hoff dafarn Dylan yn y Cei Newydd. Yn ei gerdd *New Quay* disgrifia Dylan ei hun yn eistedd yn y ffenestr agored yn gwyllo'r olygfa. Perchennog y Llew Du oedd Jack Patrick, cymeriad lliwgar y cofir amdano yn marchogaeth ei geffyl i mewn i'r bar! Arferai 'Jack Pat' gadw milgwn a byddai'n gwneud llaeth enwyn yn y llaethdy ger y dafarn.

Gyferbyn â'r Llew Du mae **Gomer House**, cartref Capten Tom 'Polly' Davies, a fu'n sensor yn ystod y rhyfel ac yn arsyllwr i'r llywodraeth yn rhyfel cartref Sbaen.

Ychydig ymhellach lan y rhiw mae **Rosehill**, cartref Capten Charles Patrick, a adweinid fel 'Capten Pat'. Nid yw'n anodd gweld sut y dylanwadodd y cymeriadau hyn ar ddychymyg Dylan i greu Capten Cat, 'gwylwr' dall Llaregyb.

The Downs oedd enw'r ardal islaw'r Llew Du, ac ar y darn bach o dir arferid cadw mulod – atgof arall o enw yn Llaregyb.

Gyferbyn mae **capel y Tabernacl**. Ymestyn lôn serth lan heibio'r Capel, gyda golygfeydd draw am Eryri, sy'n ein hatgoffa o fyfyrto'r Parchedig Eli Jenkins.



6 The Seahorse was called The Commercial in Dylan's day, and before that it was the Sailor's Home Arms, suggestive of the name for *Under Milk Wood's* Sailor's Arms. Next door is **Sheffield House**, a general ironmonger's of the kind owned by Mrs Organ Morgan in *Under Milk Wood*. Nearby is **Towyn chapel** where the poet and preacher Orchwy Bowen was minister. Opposite Towyn is the **Memorial Hall**, reminiscent of Llareggub's *Welfare Hall*, where Polly Garter scrubbed the steps.

7 Wendowel was the home of Elizabeth and Theodisia Williams, Dylan's aunt and cousin, whom he visited during the 1930s.

8 Margaret Street and George Street had several shops like those in *Under Milk Wood*. **Manchester House** was a draper's like the one run by Llareggub's Mog Edwards. On the corner, next to the former garage, stood The Emporium - a sweet shop like that of Myfanwy Price. **Maglona** had a barber's in the basement. **Arnant**, next to **Bethel chapel**, had a cobbler's like that owned by Jack Black, who chased courting couples down *Goosegog Lane*. Other shops included a photographer's, a bakery and a chemist.

9 Brongwyn Lane This wooded lane was used by courting couples, like *Under Milk Wood's* *Goosegog Lane*. It once went all the way to Llanina Point, and was one of Dylan's routes into the town, past **Maesgwyn farm**. Dylan refers to Maesgwyn at the beginning of *Under Milk Wood*. The large dark stone house opposite the top of the lane is the former police station, a model for Llareggub's *Handcuff House*.



6 Enw tafarn **Y Seahorse** yn nyddiau Dylan oedd y Commercial, a chyn hynny y Sailor's Home Arms oedd hi. Tybed a grybwyllodd enw ar gyfer tafarn Llaregyb? Drws nesaf mae **Sheffield House**, siop haearnwerthwr fel siop Mrs Organ Morgan yn *Dan y Wenallt*. Gerllaw mae **capel Towyn** lle pregethai y Parchedig Orchwy Bowen, y bardd - bregethwr. Gyferbyn mae'r **Neuadd Goffa**, atgof o *Neuadd Les Dan y Wenallt*, lle glanheuau Poli'r grisiau.

7 Wendowel oedd cartref Elizabeth a Theodisia Williams, modryb a chyfnither Dylan y bu yn ymweld â nhw yn y 1930au.

8 Roedd sawl siop yn **Stryd Bethel** yn nyddiau Dylan oedd fel y siopau a ddisgrifir yn *Dan y Wenallt*. Siop ddillad oedd **Manchester House**, yn union fel un Mog Edwards. Ar y gornel ger yr hen garej roedd siop felysion yr Emporium; Myfanwy Price oedd yn cadw siop o'r fath yn Llaregyb. Arferai bod barbwr yn seler **Maglona**, ac yn **Arnant**, drws nesaf i **gapel Bethel**, roedd crydd - fel un Llew Lledr a erlidiai'r cariadon lawr y *Lôn Tarw* gerllaw. Roedd ffotograffydd, becws a fferyllydd yma hefyd.

9 Brongwyn Lane Ers talwm, byddai cariadon yn mynychu'r lôn goediog dawel yma, ac efallai mai dyma oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y *Lôn Tarw*. Arferai fynd bob cam i Lanina, a defnyddiai Dylan hi i gerdded i'r dref, heibio fferm **Maesgwyn**. Cyfeiria Dylan at Maesgwyn ar ddechrau *Dan y Wenallt*. Y tŷ cerrig tywyll gyferbyn â'r Lôn yw hen orsaf yr heddlu, *Clinic-y-Bobi* yn Llaregyb.

To Llanina

Dylan lived on the outskirts of New Quay. You can walk to Llanina point along Traethgwyn ('whitesands') beach at low tide.

10 Plas Llanina manor house was once at the heart of an estate which, along with at least two churches and their graveyards, got washed away by the sea. Dylan first visited with the artist Augustus John in the 1930s when Llanina was leased by Lord Howard de Walden. He allowed Dylan to use the 'Apple House' for writing, and a small watch-house overlooking the bay, previously used by Customs men.

11 Majoda Dylan, Caitlin and their children lived in a wood and asbestos shack on this site until July 1945. It has great views over to New Quay and its 'hill of windows', and overlooks Traethgwyn beach, where Caitlin enjoyed swimming in the sea.

12 Ffynnonfeddyg was rented by Dylan's friends Vera and William Killick. Dylan was best man at their wedding in London. Vera was a childhood friend of Dylan's from Swansea, and her mother was from nearby Llanarth. They helped Dylan rent Majoda. It was Killick, newly returned from behind enemy lines, who was involved in the shooting incident dramatised in the film *Edge of Love* (2008)

On the outskirts of New Quay is **Gilfachreda**, home of folklorist Myra Evans. Dylan loved her tales of fairies, ghosts, mermaids and local characters. Here also is **Plas y Wern** where Dylan and Caitlin attended parties hosted by Alistair Graham. A lover of Evelyn Waugh at Oxford, Graham had retreated to New Quay and was a regular at the Dolau Inn. The character of Lord Cutglass in *Under Milk Wood* shares many of his traits.

Draw i Lanina

Trigai Dylan ar gyrion y Cei Newydd. Gallwch gerdded i drwyn Llanina ar hyd Traethgwyn pan mae'r llanw ar drai.

10 Plas Llanina Roedd unwaith diroedd o gwmpas y plasdy, ond fe'u collwyd i'r môr, ynghyd ag o leiaf dwy eglwys a'u mynwentydd. Daeth Dylan yma am y tro cyntaf gyda'r artist Augustus John yn y 1930au pan oedd y plasdy ar lês gan yr Arglwydd Howard de Walden. Cafodd Dylan lonydd i ysgrifennu mewn hen storws afalau a chaban gwyllo'r glannau swyddogion y tollau ar gyrion yr ardd.

11 Majoda Bu Dylan, Caitlin a'u plant yn byw yma tan fis Gorffennaf 1945. Yn eu dyddiau nhw adeilad o bren ac asbestos ydoedd. Oddi yma ceir golygfa wych o'r Cei Newydd ar draws y bae. Byddai Caitlin yn mwynhau nofio yn y môr islaw.

12 Ffynnonfeddyg Dyma dŷ rhent cyfeillion Dylan - Vera a William Killick. Roedd Vera'n ffrind plentyndod i Dylan yn Abertawe, ac roedd ei mam yn wreiddiol o Lanarth. Bu Dylan yn was priodas iddynt yn Llundain. Killick, milwr dewr oedd newydd ddychwelyd o flaen y gad, fu'n rhan o'r digwyddiad saethu yn Majoda, a ddramateiddwyd yn y ffilm *Edge of Love* (2008)

Yn **Gilfachreda** byddai Dylan yn ymweld â Myra Evans, casglwr storïau gwerin. Yma hefyd, mae **Plas y Wern**, lle bu Dylan a Caitlin yn mwynhau partion gyda Alistair Graham, cyn gariad i'r awdur Evelyn Waugh yn Rhydychen. Enciliodd Graham i'r Cei Newydd, ac fe'i gwelid yn rheolaidd yn nhafarn y Dolau. Dywedir bod nodweddion ei gymeriad i'w gweld yn Syr Wili Watsh *Dan y Wenallt*.

'hoofed with seaweed, did a jig on Llanina sands'

Living in Wales, broadcast 1949

On the trail of Dylan in New Quay

The numbers on the map refer to locations on the Dylan Thomas trail around New Quay. It is possible to walk to Llanina along Traethgwyn beach at low tide (see inset map and check tide tables).

Trywydd Dylan yn y Cei Newydd

Dynoda'r rhifau ar y map leoliadau ar drywydd Dylan Thomas drwy'r Cei Newydd. Gallwch gerdded i Lanina ar hyd Traethgwyn pan mae'r llanw ar drai (gwelwch y map bach a tablau llanw).




Walk the Ceredigion Coast Path


The route Dylan would have taken from Majoda into New Quay is now part of the Ceredigion Coast Path. From Llanina you can continue north along the coast path, past Cei Bach, over the River Drywi, through woods and along cliffs to the colourful harbour town of **Aberaeron**.

Or head south towards **Cwmtydu** and **Llangrannog**. The route climbs steeply out of the town, above the quarry and continues via Bird Rock, Cwm Soden, and the valley of the **River Dewi**, much loved by Llaeggub's Eli Jenkins.

Pick up the path at the end of Lewis Terrace, where Dylan's friend Dai Fred lived. He was a donkeyman, and made ships in bottles, like Tom Fred in *Under Milk Wood*.



Cerdded llwybr yr arfordir



Heddiw mae'r llwybr y byddai Dylan yn ei ddilyn o Majoda am Gei Newydd yn rhan o Lwybr Arfordir Ceredigion. O Lanina gallwch gerdded tua'r gogledd, heibio Cei Bach, dros yr afon Drywi, trwy goedwigoedd ac ar hyd y clogwyni i dref harbwr liwgar **Aberaeron**.

Neu ewch am y de tua **Cwmtydu** a **Llangrannog**. Dringa'r llwybr yn serth allan o'r Cei Newydd, uwchben y cware, draw am Graig yr Aderyn, Cwm Soden a'r **afon Dewi** - hoff afon y Parchedig Eli Jenkins.

Dilynwch y llwybr o ben draw Lewis Terrace, lle trigai Dai Fred, ffrind i Dylan. Roedd yn beiriannydd llongau, a byddai'n gwneud llongau mewn poteli hefyd, yn union fel Tom Ffred yn *Dan y Wenallt*.

'I walked on to the cliff path again, the town behind and below'

Quite Early One Morning, 1944

Aberaeron and The Aeron Valley

Dylan's friend, Thomas Herbert, lived in Belle Vue Terrace, which overlooks **Aberaeron** harbour. He was a vet, interested in herbal remedies, and he had a reputation for being good with cats - not unlike Mr Waldo in *Under Milk Wood*. He had a lover whom he'd meet with in the pub at **Llanon**. Dylan would occasionally accompany him there and on visits to farms in the area.

Several farms near Llanon and along the Aeron valley have names incorporating 'milk' (llaeth) or 'wooded hill' (gallt) such as Wernllaeth, Llaethliw, Llaethdy, Allt Wen and Penwenallt. 'Aeron' literally means fruits, berries and grain. Dylan claimed that his daughter, Aeronwy, was conceived on the banks of the **river Aeron**, and named after it. Dylan once described the valley as 'the most precious place in the world'.

TS Eliot came to the Aeron valley in the 1930s, staying with the publisher Geoffrey Faber at Tyglyn Aeron mansion. Eliot knew Dylan and had published some of his work in the *Criterion* magazine.

For the duration of the War the Phillips family rented Plas y Gelli at **Talsarn** in the Aeron valley and Dylan and Caitlin joined them there, Dylan travelling from London on the train (the railway line is now a walking route between Aberaeron and Lampeter). The mansion and surrounding countryside inspired some of Dylan's most haunting poems including *In Country Sleep* and *A Winter's Tale*. Dylan and Caitlin would walk across the fields from Gelli to enjoy the beer and talk in the pubs at **Ystrad Aeron**. Dylan also went up the valley to **Llangeitho**, a village at the centre of the 18th century Methodist religious movement. The Aeron valley was known for its poets, one of whom was Dan Jenkins of Pentrefelin farm, from where Caitlin borrowed ponies for riding.

Aberaeron a Dyffryn Aeron

Trigai ffrind arall i Dylan, y milfeddyg Tom Herbert, yn Belle Vue Terrace ger harbwr **Aberaeron**.

Weithiau byddai Tom Herbert yn defnyddio meddyginiaethau traddodiadol, a dywedir ei fod yn hoff o gathod - nid yn anhebyg efallai i Mr Waldo *Dan y Wenallt*. Byddai'n mynd i gyfarfod a'i gariad yn y dafarn yn **Llanon**, a byddai Dylan yn mynd yno gydag ef ar adegau, ac ar ei ymweliadau â ffermydd yr ardal.

Rhwng Aberaeron a Llanon mae ffermydd Penwenallt a Wernllaeth - enwau allasai fod wedi ysbrydoli enw'r ddrama leisiau enwog *Under Milk Wood* (*Dan y Wenallt* yn Gymraeg). Mae sawl fferm arall yn Nyffryn Aeron ag enwau sy'n cyfeirio at laeth neu goedwig, megis Llaethliw, Llaethdy ac Allt Wen, tra bod 'aeron' yn crybwyll cyfoeth yr haf a'r hydref. Honnai Dylan i'w ferch, Aeronwy, gael ei chenhedlu ar lan yr **afon Aeron**, ac iddi gael ei henwi ar ei hôl.

Yn y 1930au, daeth yr awdur TS Eliot i dreulio gwyliau gyda'r cyhoeddwr Geoffrey Faber ym mhlasdy Tyglyn Aeron. Roedd Eliot yn adnabod Dylan ac roedd wedi cyhoeddi peth o'i waith yn ei gylchgrawn *Criterion*.

Dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd, cymerwyd **Plas y Gelli**, ger **Talsarn** ar rent gan deulu'r Philipiaid ac ymunodd Dylan a Caitlin â nhw yno. Teithiai Dylan yno ar y tren o Lundain - lein sydd bellach yn lwybr cerdded a beicio rhwng Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan. Saif y plas mewn tirwedd a ysbrydolodd rai o gerddi mwyaf dirdynnod Dylan gan gynnwys *In Country Sleep* ac *A Winter's Tale*. Byddai Dylan a Caitlin yn cerdded ar draws y caeau o'r Gelli i fwynhau llymmaid a sgwrs yn nhafarn y Vale of Aeron yn **Ystrad Aeron**. Hoffai Dylan gerdded lan y dyffryn i **Llangeitho** hefyd, pentref enwog am ei ddiwygiadau Methodistiaidd. Roedd Dyffryn Aeron yn adnabyddus am ei feirdd, fel Dan Jenkins o fferm Pentrefelin, o lle benthycodd Caitlin geffylau i'w marchogaeth.

'floating fields from the farm in the cup of the vales'

A Winter's Tale

The Ceredigion countryside and its people

When Gelli got crowded, Dylan would go to work on his scripts at the Castle Hotel in **Lampeter** where he enjoyed singing with the town's rugby team. He also enjoyed the quiet of the grounds of the University College, established here in 1822 to train Anglican priests. In the 19th century, there were five toll gates on the approach roads to the town, which, with others in the Teifi valley and neighbouring Carmarthenshire and Pembrokeshire, were targets for the Rebecca Riots, dramatised by Dylan in 1948 as *Rebecca's Daughters*.

Dylan's middle name - Marlais - recalls that of his great uncle - Gwilym Marles Thomas, a poet and a preacher of some renown at the Unitarian chapel at **Llwynrhydowen**. He had opened the first grammar school at nearby **Llandysul**, and campaigned for tenant farmers rights, for which he and his congregation were evicted from the chapel by the local landlord.

During the Second World War, Dylan and Caitlin lived a peripatetic life. In 1942, they lived briefly in **Talgarreg**. This was also the home of one of Wales's best known poets, Dewi Emrys, who had been born in New Quay and had lived in London during the 1920s and 1930s. He retired to Talgarreg to a cottage conveniently opposite the Glanyrafon Arms.

Not far is **Rhydlewis** where the author Caradoc Evans was raised. His 1915 collection of short stories *My People* was a controversial depiction of Welsh peasant life, and *My Neighbours* (1919) was a similar satirical portrayal of the London Welsh.

At the Pentre Arms in **Llangrannog** Dylan met the Cilie family of country poets, including Isfoel who wrote witty and sometimes bawdy verse, as Dylan did.

Cefn gwlad Ceredigion a'i phobl

Plan oedd Plas y Gelli ar ei brysuraf, byddai Dylan yn mynd i **Lanbedr Pont Steffan**, i aros yng ngwesty'r Castle i weithio ar ei sgriptiau. Yno byddai'n mwynhau canu gyda thîm rygbi'r dref, a synfyfrio yn nhawelwch tir y Coleg a sefydlwyd i hyfforddi rheithoriaid yn 1822. Yn y 19eg ganrif roedd pum tollborth ar y ffyrdd i'r dref. Ynghyd â thollbyrth yn Sir Gaerfyrddin a Phenfro, fe'u targedwyd gan Ferched Beca. Yn 1948 ysgrifennodd Dylan sgript ffilm *Rebecca's Daughters* yn sôn am yr helynt.

Enw canol Dylan oedd Marlais, tebyg i'w hen ewyrth Gwilym Marles Thomas, bardd a phregethwr uchel ei barch gyda'r Undodiaid yng nghapel **Llwynrhydowen**. Gwilym Marles a sefydlodd ysgol ramadeg gyntaf **Llandysul**, a bu'n ymgyrchu hefyd dros hawliau tenantiaid a achosodd iddo ef a'i gynulleidfa gael eu taflu allan o'r capel gan y tîrfeiddianwr.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd byw bywyd crwydrol a wnaï Dylan a Caitlin. Ym 1942 buont yn byw am gyfnod byr yn **Nhalgarreg**, cartref erbyn hynny i'r bardd Dewi Emrys, a anwyd yn y Cei Newydd, ac a fu'n byw yn Llundain yn y 1920au a'r 1930au. Ymddeolodd i Dalgarreg, lle bu'n byw mewn bwthyn oedd yn digwydd bod gyferbyn â'r darfan.

Yn **Rhydlewis** magwyd yr awdur Caradoc Evans. Bu i'w gasgliad o straeon byrion a ddisgrifiai fywyd gwerin cefn gwlad, *My People* (1915) beri cryn stwr, fel y gwnaeth ei gasgliad dychanol arall, *My Neighbours* (1919) a ddisgrifiai Gymry Llundain.

Byddai Dylan wedi cyfarfod â'r teulu o feirdd 'Bois y Cilie' yn **Llangrannog**, gan gynnwys Isfoel, a ysgrifennai gerddi doniol a masweddi, fel y gwnai Dylan.

'In the river wended vales where the tale was told'

Aberystwyth is the home of the **National Library of Wales**, which has a fantastic collection of Dylan Thomas material relating to his life and work, from film and sound archives to paintings, drawings, letters and other documents - including Dylan's hand drawn sketch of *Under Milk Wood's* Llareggub.

In the mid 1930s Dylan Thomas visited Aberystwyth where his father is believed to have studied English at the University. Dylan came to see the novelist Caradoc Evans and Kenneth Hancock - an artist friend from Swansea - who was then a lecturer at the University School of Art.

One of Wales's most well known hymns is 'Aberystwyth' - always sung, when he was drunk, by Llareggub's Cherry Owen.



Yn Aberystwyth mae **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** sydd â chasgliad gwych o ddeunyddiau am fywyd a gwaith Dylan Thomas: yn yr archif ffilm a sain, mewn peintiadau, lluniau, llythyrau a dogfennau eraill - gan gynnwys sgets Dylan ei hun o bentref dychnmygol *Dan y Wenallt*.

Yn y 1930au daeth Dylan i Aberystwyth lle credir i'w dad astudio Saesneg yn y Brifysgol. Daeth Dylan i ymweld â'r nofelydd Caradoc Evans a'r artist Kenneth Hancock - ffrind o Abertawe oedd yn darlithio yn Ysgol Gelf y Brifysgol.

Hoffai Ceiriog Owen, Llaregyb ganu'r emyn adnabyddus 'Aberystwyth' pan oedd wedi meddwi.

*'Mrs Cherry Owen: and then you sang 'Aberystwyth' tenor and bas.
Cherry Owen: I always sing 'Aberystwyth'* Under Milk Wood

Key Allwedd




Tourist Information Centre
Canolfan Croeso

— Ceredigion Coast Path
Llwybr Arfordir Ceredigion

— Roads
Ffyrdd

- - - Railway
Rheilffordd



BAE CEREDIGION
CARDIGAN BAY

Mynyddoedd y Cambria
CAMBRIAN MOUNTAINS




© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawffraint. Cyngor Sir Ceredigion 100024419, 2014
© Crown Copyright. All rights reserved. Ceredigion County Council 100024419, 2014

This trail is based on the research of David N Thomas, published in *A Farm, Two Mansions and a Bungalow* (Seren 2000) and *A Dylan Thomas Trail* (Lolfa 2002). For more information about Ceredigion visit **www.discoverceredigion.co.uk**

Seilwyd ar waith ymchwil David N Thomas a'i lyfrau *A Farm, Two Mansions and a Bungalow* (Seren 2000) a *The Dylan Thomas Trail* (Lolfa 2002).

Am fwy o wybodaeth am Geredigion ewch i **www.darganfodceredigion.co.uk**



Enquiries / Ymholiadau
croeso@ceredigion.gov.uk
tourism@ceredigion.gov.uk

Ceredigion County Council's Tourism Service has made every effort to ensure accuracy in this publication and cannot accept responsibility for any matter connected with the publication of this information.

Mae Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir ac ni all dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw fater yn gysylltiedig â chyhoeddi'r wybodaeth.

Published by / Cyhoeddwyd gan:

Gwasanaeth Twristiaeth Ceredigion Tourism Service
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AG
© Cyngor Sir Ceredigion 2014